

Cyngor Sir Gâr: Gweithredu'r Safonau

Mae'r ddogfen hon yn nodi **sut** y bydd Cyngor Sir Gâr yn cydymffurfio gyda'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, y Safonau Gweithredu a'r Safonau Llundain Polisi. (Bydd y modd yr ydym yn cyflenwi Safonau Cadw Cofnodion yn cael eu egluro yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Safonau Hybu yn y Strategaeth Hybu). Bydd y ddogfen hon hefyd yn nodi trefniadau **goruchwylio** cydymffurfiaeth y Safonau cyflenwi Gwasanaethau a Gweithredu ac yn nodi sut byddwn yn **hybu** a **hwyluso defnydd** y Gwasanaethau hynny.

Mae'r ddogfen yn cyflawni gofynion Safonau Atodol 157, 159, 163, 165, 169, 171 Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Sir Gâr.

Er yn ddogfen sefydlog, mae lle i adolygu'r ddogfen hon yn flynyddol i sicrhau cynnydd wrth y camau gweithredu er mwyn sicrhau cynnydd parhaol. Er fod Cyngor Sir Gâr yn cael wedi cael cadarnhad eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau gan Comisiynydd y Gymraeg (2021-22), credwn fod bob amser modd gwell. Ac wrth i weithdrefnau a rhaglenni'r cyngor ddatblygu'n gyson, bydd modd addasu'r Cynllun hwn i weddu'r newidiadau hynny yn flynyddol hefyd, i'w gadw'n gyfredol o hyd.

Mae Adroddiad Blynyddol y Gymraeg Cyngor Sir Gâr yn adrodd ar newidiadau a chynnydd ac yn adlewyrchu ein hawydd i beidio sefyll yn ein hunfan, ond yn hytrach i wella a datblygu er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle gorau posib i'r Gymraeg i ffynnu yn y sir.

Trefniadau cydymffurfio:

- Rheolwyr
- Panel Ymgynghorol yr Aelodau
- Awdit mewnol y Cyngor Sir
- Cwynion
- Cyngor ar y Gymraeg wrth gaffael
- Prosesau Rheoli Perfformiad y Cyngor, gyda mesurau a phwyntiau gweithredu penodol
- Adroddiad Blynyddol y Cyngor ac Adroddiad y Strategaeth Gorfforaethol
- Tîm Polisi yn cyngori, cefnogi a gwirio mewn partneriaeth gyda'r adrannau i gyd.

Trefniadau Hwyluso defnydd:

- Rhoi'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg yn y cyffyrddiad cyntaf
- Sicrhau llwybr llyfn rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn electroneg
- Anfon fersiynau dwyieithog yn dorfol
- Rhoi swigen oren ar broffil staff
- Darparu pob neges i'r cyhoedd yn Gymraeg yr un pryd a'r Saesneg
- Gosod neges o dan pob post ar Facebook yn cyfeirio'r darlennydd at y fersiwn yn yr iaith arall

Trefniadau Hybu:

- Ymgyrchoedd marchnata ysbeidiol
- Ymgyrchoedd marchnata ar ddiwrnod Mae gen ti Hawl a Diwrnod Shwmae
- Hyrwyddo yn ysbeidiol drwy'r Fforwm Sirol
- Canllawiau ar y fewnrwyd
- Atgoffa staff mewn cylchlythyron yn ysbeidiol
- Atgoffa staff ar ddiwrnod 'Mae gen ti Hawl'

- Creu cyfleoedd y staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Cyflogi ymgynghorydd Dysgu a Datblygu ar gyfer y Gymraeg yn benodol

Dosbarth o Safon: Cyflenwi Gwasanaethau (1-87)

Gohebiaeth (1-7)

Sut? Mae canllawiau ar y fewnwyd ar sut a phryd i drin gohebiaeth yn Gymraeg. Cyngorir staff i lunio pob gohebiaeth dorfol yn ddwyieithog yn hytrach na cheisio cadw cofnod o ddewis iaith trigolion. Ceir templedi ar y fewnwyd i gynorthwyo llunio negeseuon dwyieithog ac ar gyfer cynnwys llofnod e-bost cywir sy'n cynnwys y frawddeg 'Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg' 'You are welcome to contact us in Welsh or English' yn rhan o'r llofnod e-bost. Mae'r frawddeg hon hefyd wedi ei gynnwys ar dempledi llofnod ebost safonol ar y fewnwyd. Ceir Canllaw hefyd sy'n manylu ar pryd mae angen gohebu'n Gymraeg sydd ar ffurf siart llif. Paratowyd hwn ar y cyd â Adran yr amgylchedd. Mae'r Uned Gyfieithu yn darparu gwasanaeth i adrannau'r Cyngor sy'n sicrhau cyfieithiadau safonol o ohebiaeth Saesneg ac mae staff yn gwybod bod yn rhaid caniatáu digon o amser i gyfieithu gohebiaeth Saesneg os nad ydynt yn llunio negeseuon dwyieithog eu hunan.

Goruchwylio: Mae rheolwyr y Cyngor yn gyffredinol yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff y Cyngor yn delio â gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac yn cyfathrebu yn Gymraeg gyda thrigolion y sir ar y cyswllt cyntaf. Mae Arweinwyr iaith y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ar y Safonau ac yn gwybod am y canllawiau ar y fewnwyd. Gallant wirio a chynghori eu cyd-weithwyr ar ohebu yn Gymraeg.

Hybu: Rydym yn hybu trigolion i ohebu gyda'r Cyngor yn Gymraeg drwy gynnwys y frawddeg uchod ar ddiwedd pob e-bost.

Hwyluso: Rydym yn hwyluso gohebiaeth Gymraeg drwy ei ddarparu'n gywir ac yn amserol ar bob achlysur er mwyn magu arfer ac ymddiriedaeth ein trigolion o'r wasanaeth. Rydym hefyd yn anfon gohebiaeth ddwyieithog ar y cyswllt cyntaf er mwyn annog cymaint o ddefnydd o'r wasanaeth Gymraeg a sydd bosib.

Camau Gweithredu 2023-4:

- **Darparu a hyrwyddo'r siart llif gohebu o fewn holl adrannau'r Cyngor**
- **Atgoffa staff o'r angen i gynnwys y frawddeg hybu fel rhan o'u llofnod e-bost.**
- **Sicrhau bod y frawddeg yn cael ei chynnwys ar y cyngor diwygiedig ar llofnod e-bost ar y fewnwyd.**
- **Darparu hyfforddiant ar ddefnyddio cyfieithu peirianyddol ar gyfer staff sy'n gallu llunio negeseuon dwyieithog eu hunain er yn pwysleisio'r angen i ddefnyddio'r Uned Gyfieithu ar gyfer negeseuon i'r cyhoedd yn gyffredinol.**

Ffôn (8-22) a derbynfa (64-68)

Sut?: Mae'r rhan fwyaf o alwadau ffôn yn dod drwy Ganolfan Gyswllt y Cyngor. Y tu allan i oriau gwaith arferol, mae gwasanaeth Llesiant Delta yn derbyn galwadau. Mae staff y Ganolfan Gyswllt a Llesiant Delta yn cael hyfforddiant ar ateb y ffôn, cyfarch yn ddwyieithog mewn modd sy'n hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Mae Canllawiau ar ateb y ffôn ar gael ar y fewnwyd, ynghyd â chlipiau sain i gynorthwyo ynganiad cywir ar gyfer holl staff y Cyngor. Mae'r Canllawiau yn nodi hefyd yr angen i drosglwyddo galwadau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg.

Mae'r system Rheoli Cyswllt Cwsmeriaid yn gallu dal cofnod o ddewis iaith unigolyn pan fydd y Ganolfan Gyswllt yn cyfeirio ymholiadau neu cais am wasanaeth at adrannau unigol.

Goruchwyliaeth: Mae Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau yn sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn cael eu recriwtio i Ganolfan Gyswllt y Cyngor ac i'r hybiau. Mae is-reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn ateb y ffôn yn gywir ac yn cydlynu gwasanaeth gyflawn Gymraeg. Mae rheolwr yr Adran Gymunedau'n gyfrifol, yn yr un modd am dderbynfeydd y Canolfannau hamdden a'r llyfrgelloedd ac mae Rheolwr Gyfarwyddwr Llesiant Delta yn gyfrifol am ddarpariaeth staff Llesiant Delta.

Mae rheolwyr y Cyngor yn gyffredinol yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff y Cyngor yn delio â galwadau ffôn yn addas, gan hwyluso a hybu defnydd y Gymraeg.

Mae Arweinwyr iaith y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ar y Safonau ac yn gwybod am y canllawiau ar y fewnrwyd. Gallant wirio a chynghori eu cyd-weithwyr ar ddelio â galwadau ffôn yn gywir.

Hybu: Un rhif ffôn sydd i Ganolfan Gyswllt y Cyngor ac un i Llesiant Delta. Mae'n cael ei farchnata ar dudalennau Cymraeg a Saesneg y wefan yn yr un modd. Rydym yn darparu arwyddion iaith Gwaith yn ein derbynfeydd.

Hwyluso: Byddwn bob amser yn hyrwyddo rhif ffôn y Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn sicrhau bod mynediad rhwydd at y wasanaeth Gymraeg. Yn yr un modd, byddwn yn sicrhau bod ein staff yn trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg wrth gyfarch ar y ffôn ac wrth ddelio a galwadau Cymraeg gan sicrhau bod yr alwad gyfan yn cael ei drin yn Gymraeg yn yr un modd ac y byddai galwad Saesneg yn cael ei drin. Gall staff reng flaen weld pa staff o fewn adrannau'r cyngor sy'n siaradwyr Cymraeg wrth edrych am swigen oren ar eu proffil. Mae hyn yn hwyluso'r drefn o drosglwyddo galwadau ffôn.

Camau Gweithredu 2022-23:

- **Cynnwys brawddeg ar y tudalennau gwe sy'n nodi bod croeso i'r cyhoedd siarad gyda ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.**
- **Goruchwyllo penodiadau'r Ganolfan Gyswllt a Delta i sicrhau bod digon o staff yn cael eu penodi sy'n cyrraedd y gofyniad iaith a sicrhau hyfforddiant i'r rhai sy'n cael eu penodi o dan y gofyniad iaith.**
- **Gwirio derbynfeydd y Cyngor wrth ad-drefnu adeiladau i sicrhau bod arwyddion iaith gwaith yn cael eu harddangos.**
- **Hyrwyddo'r modd o gael cymorth ffôn yn Gymraeg ar wefan Llesiant Delta**
- **Gosod swigen iaith Gwaith ar wybodaeth yr HWB ar y wefan**

Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus (23-41, 68)

Sut?: Mae Canllawiau ar y fewnrwyd ar sut i drin y Gymraeg wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus. Ceir fideo hefyd ar sut i drefnu a chynnal cyfarfodydd sy'n hwyluso a hybu defnydd y Gymraeg. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu yn fewnol ar gyfer unrhyw gyfarfodydd sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd ac mae modd defnyddio cyfieithydd ar blatfform Zoom ac yn fuan ar blatfform Microsoft hefyd. Mae modd defnyddio cyfieithydd ar y pryd yn ogystal mewn cyfarfodydd hybrid a gynhelir o stafelloedd benodol yn ein swyddfeydd sydd yn cynnwys cyfarpar cyfarfodydd hybrid. Mae gennym drefn lle mae'r Uned Gyfieithu o fewn y Cyngor yn recriwtio cyfieithydd allanol ar gyfer cyfarfodydd pan nad ydy'r cyfieithwyr mewnol ar gael.

Goruchwyllo: Mae Rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus y cyngor yn cael eu trefnu'n ddwyieithog, mewn modd sy'n hwyluso a hybu defnydd y Gymraeg. Mae

rheolwr gwasanaethau Democrataidd y cyngor yn gyfrifol am sicrhau safon o ddarpariaeth Gymraeg yng nghyfarfodydd democrataidd y Cyngor.

Hybu: Rydym yn marchnata pob digwyddiad cyhoeddus yn ddwyieithog ac yn sicrhau bod cyfraniadau Cymraeg yn rhan o'r digwyddiad. Dibynnir ar staff unigol i hybu'r cyfle i gael cyfarfod cyfrwng Cymraeg i unigolion, ac i ofyn i fynychwyr a fyddant yn hoffi cyfrannu'n Gymraeg o flaen llaw i'r cyfarfod.

Hwyluso: Rydym yn cynghori staff i hwyluso defnydd y Gymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus drwy sicrhau bod y cadeirydd yn nodi bod modd cyfrannu'n Gymraeg yn y digwyddiad, ei fod yn siarad Cymraeg rhwng y cyfraniadau, bod rhai cyfranwyr yn cyflwyno'n Gymraeg a bod modd gofyn cwestiynau'n Gymraeg. Rydym hefyd yn annog staff i gynnal gweithdai Cymraeg o fewn digwyddiad ehangach ac yn darparu cyfieithu ar y pryd.

Mae ein system apwyntiadau ar gyfer yr Hwb yn gofyn wrth i chi drefnu apwyntiad ai yn Gymraeg neu Saesneg rydych chi'n dymuno trafod.

Mae swyddogion cymdeithasol yn gofyn am ddewis iaith cwsmeriaid ar y cyswllt cyntaf fel bod modd trefnu apwyntiadau, ymweliadau a chyfarfodydd yn Gymraeg yn ddi-ofyn.

Dogfennau a ffurflenni (42-51)

Sut? Mae popeth sy'n ymddangos ar ein gwefan yn ymddangos yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni, canllawiau, polisïau, ymgynghoriadau, llyfrynau, pamffledi. Mae'r Uned Gyfieithu yn darparu nifer fawr o'r dogfennau hyn yn Gymraeg ac yn medru sicrhau eu safon o ganlyniad. Yn ogystal, os oes unrhyw ddogfen a gynhyrchir sydd ddim yn ymddangos ar y wefan ond sydd yn cael ei rannu'n gyhoeddus, fe gaiff ei ddarparu'n ddwyieithog. Mae agendau a chofnodion y cyngor llawn i gyd yn cael eu darparu'n Gymraeg

Goruchwylio: Mae'r Tîm Marchnata'n goruchwylio'r deunyddiau sy'n ymddangos ar y wefan ac felly'n ymddwyn fel hidlydd i'r adrannau i gyd yn hyn o beth. Mae'r Uned Gwasanaethau Democrataidd yn goruchwylio'r ddogfennaeth ar gyfer y cyngor llawn ac mae'r Tîm Polisi'n cynghori adrannau os oes yna amheuaeth os oes angen fersiwn Cymraeg.

Hybu: Rydym yn gweithio ar gael y frawddeg 'Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd' ar ein holl ffurflenni electroneg wrth i ffurflenni gael eu diweddarau drwy raglen dreigl.

Hwyluso: Mae dogfennau'r cyngor i gyd yn ymddangos yn yr un diwyg ac ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg a hyn yn hwyluso defnydd ohonynt. Mae'r lleihad mewn defnydd o ddeunyddiau papur a chynnydd mewn defnydd electroneg yn hwyluso hyn yn ogystal. Mae modd i ddefnyddwyr fynd yn ôl ac ymlaen o fersiwn Saesneg i'r Gymraeg ar ein gwefan. Mae hyn yn hwyluso defnydd Cymry Cymraeg llai hyderus i ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg. Rydym ni'n defnyddio Cymraeg clir ar ein holl ddogfennaeth er mwyn hwyluso dealltwriaeth gyffredinol. Mae ffurflenni ein holl ymgynghoriadau cyhoeddus ar dudalennau gwe Saesneg a Chymraeg yn cyngor yn gofyn i'r defnyddiwr ddewis Saesneg neu Gymraeg ar y dudalen gyntaf. Mae hyn yn ei wneud yn hollol amlwg fod modd llenwi'n Gymraeg ac yn hybu gwelededd a defnydd y Gymraeg.

Camau Gweithredu 2023-4

- **Nodi'r frawddeg 'Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd' ar ein holl ffurflenni electroneg**
- **Archwilio posibiliadau o gynnwys y frawddeg ar ddogfennau eraill**

Cyfathrebu digidol a pheiriannau hunan-wasanaeth (52-60)

Sut? Mae'r Tîm Marchnata'n gwirio fod pob testun ar gyfer gwefan a mewnrwyd y cyngor yn cael ei baratoi'n Saesneg ac yn Gymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Maent hefyd yn delio â bron holl negeseuon y Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae rhai negeseuon yn cael eu rhyddhau gan Actif a chan yr adran blant gan gynnwys Ap Dechrau'n Deg ac Ap Actif. Dylai'r rhain ddilyn yr un gweithdrefnau a'r Adran farchnata ganolog. Mae ein peiriannau hunanwasanaeth yn gweithredu'n ddwyieithog.

Goruchwyllo: Mae'r Tîm Marchnata'n gyfrifol am gyhoeddi pob testun sy'n ymddangos ar y wefan a'r fewnrwyd. Golyga hyn y gallant wirio ei fod yn ddwyieithog cyn ei gymeradwyo. Mae'r Adran Gaffael yn annog staff i gael cyngor oddi wrth y tîm polisi wrth gaffael a hyn yn rhoi cyfle i'r uned sicrhau bod peiriannau hunan wasanaeth yn cydymffurfio ac yn mynd gam ymhellach lle bo modd.

Hybu: Dydyn ni ddim yn hybu ein darpariaeth digidol Gymraeg. Rydyn ni'n ei osod ochr yn ochr â'r ddarpariaeth Saesneg ond dydyn ni ddim yn hybu'r ddarpariaeth mewn unrhyw iaith.

Hwyluso: Mae darpariaeth Gymraeg y wefan ar gael ar dudalen flaen y wefan ochr yn ochr â'r Saesneg. Mae'r un yn wir am y fewnrwyd. Mae'n rhaid i'r defnyddiwr glicio ar y naill ochr neu'r llall ac fe gaiff ei gyfeirio at y llwybr yn yr iaith honno. Wedi i rywun ddewis ei llwybr, mae dal modd newid o un iaith i'r llall drwy wasgu ar botwm Dewis Iaith ar frig y dudalen. Rydym yn gynyddol yn sicrhau bod y Gymraeg yr un mor ddi-ofyn â'r Saesneg ar ein peiriannau hunan-wasanaeth fel bod yn rhaid gwasgu i ddewis y naill iaith neu'r llall yn hytrach na gwasgu os oes angen y Gymraeg.

Camau Gweithredu 2003-4

- **Gwirio ydy holl beiriannau hunan-wasanaeth y cyngor yn gorfodi dewis y naill iaith neu'r llall**
- **Sicrhau bod hyn yn drefn arferol wrth gaffael holl beiriannau hunan wasanaeth y cyngor**

Arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus (60-70)

Sut? Mae trefn gadarn yn ei le i sicrhau bod hysbysiadau cyhoeddus yn ymddangos yn ddwyieithog ar bob achlysur, ar drwyddedi mewn tafarndai a thacsis er enghraifft ac ar bolion lamp lle mae cynlluniau i ddatblygu gerllaw, ac ar ein gwefan. Mae arwyddion y cyngor i gyd yn cael eu darparu'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg uwchlaw neu i'r chwith o'r Saesneg, ac mae'r arwyddion yn gywir.

Goruchwyllo: Mae'r Uned Priffyrdd yn gyfrifol am gywirdeb ein arwyddion lleoliadau ac mae arwyddion ein canolfannau hamdden a llyfrgelloedd yn cael eu pennu a'u trefnu gan????

Hybu: Nid ydym yn hybu ein harwyddion.

Hwyluso: Nid ydym yn hwyluso defnydd ein harwyddion a'n hysbysiadau cyhoeddus, ond drwy gosod y Gymraeg yn y man lle mae'n fwy tebygol o gael ei ddarllen yn gyntaf a sicrhau cywirdeb a diwyg safonol.

Gweinyddu grantiau a thendrau (71-80)

Sut? Mae ein holl ffurflenni cais, gwybodaeth am grantiau a deunyddiau hyrwyddo grantiau yn cael eu darparu'n Gymraeg ar ein tudalennau gwe Cymraeg. Mae'r Adran Adfywio yn trin ceisiadau grant yn unol â'n trefniadau gohebu gan groesawu ceisiadau Cymraeg a'u hateb yn Gymraeg ac yn yr un modd â'r ceisiadau Saesneg. Nid ydym yn cynnal cyfweiliadau ar gyfer penderfyniadau grant. Rydym yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol bod modd gwneud cais yn Gymraeg. Mae ein ffurflenni cais yn nodi'r angen i geisiadau grant gynnwys polisi iaith Gymraeg ac mewn rhai cronfeydd, megis Leader, mae'r Gymraeg yn thema trawsbynciol i sicrhau triniaeth deg o'r Gymraeg ac mae hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn thema benodol yn ogystal.

Mae manylebau tendr Uned Caffael y Cyngor yn adlewyrchu'r angen i weithredu'n ddwyieithog ac i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn ogystal. Mae'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro yn cael ei chyhoeddi yn ddwyieithog ac yn gosod cwestiynau penodol am Safonau'r Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae cyfle i'r Tîm Polisi ddylanwadu ar y cwestiynau a ofynnir fel rhan o'r broses.

Goruchwylio: Mae rheolwyr yr is-adran Adfywio yn gyfrifol am weinyddu'r rhan fwyaf o grantiau'r Cyngor a nhw sy'n sicrhau eu bod yn cael eu gweinyddu mewn modd sy'n trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Mae'r rheolwyr yn yr adran yn gyfrifol am sicrhau bod digon o staff gyda sgiliau iaith Gymraeg yn medru gweinyddu prosesau grant yn Gymraeg. Mae Uned Gaffael y cyngor yn ei wneud yn ofynnol i bob rheolwr gysylltu gyda'r Tîm Polisi i gael cyngor am y Gymraeg wrth fynd allan i dendr. Mae hyn yn galluogi pob prosiect i gael ei ystyried o ran ei effaith ar y Gymraeg ac i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn unol a natur y prosiect. Mae pob rheolwr yn gorfod cadarnhau fod y drafodaeth wedi digwydd cyn cwblhau'r gwaith paratoi a mynd allan i dendr.

Hybu: Mae her, rydym eisoes wedi trafod gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, wrth gyhoeddi gwybodaeth ar wefan Sell2Wales yn ddwyieithog. Bydd angen datrysiaid cenedlaethol i hyn gan fod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r system.

Hwyluso: Mae'r is-adran Adfywio'n gwahodd cynrychiolaeth o'r Mentrau Iaith ar fyrddau amrywiol y rhaglenni adfywio er mwyn sicrhau llais y Gymraeg o fewn y prosiectau. Mae'r Tîm Polisi yn rhoi cyngor i'r adrannau ar ffyrdd y dylai'r gwasanaeth sy'n cael ei dendro gael ei hybu'n Gymraeg gan y cyrff sy'n ceisio.

Camau Gweithredu:

- **Cwblhau a chael cymeradwyaeth i'n Polisi Dyrannu Grantiau newydd**
- **Sicrhau bod ein prosesau a rhaglenni grantiau newydd i gyd yn adlewyrchu'r angen i weithredu er budd y Gymraeg, yn enwedig wrth weinyddu grantiau o lywodraeth y Deyrnas Unedig**
- **Sicrhau ein bod yn hybu'r posibilid o gyflwyno ceisiadau grant yn Gymraeg yn y systemau grantiau newydd**

Hybu gwasanaethau (81-2)

Sut? Mae ein holl wasanaethau'n cael eu hyrwyddo yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd ac yn yr un modd.

Goruchwylio: Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth yn eistedd gyda rheolwyr y cyngor a bydd unrhyw waith hyrwyddo ddaw drwy'r Tîm Marchnata yn cael eu goruchwylio yno.

Hunaniaeth gorfforaethol (83)

Sut? Mae ein hunaniaeth gorfforaethol wedi cael ei ddylunio'n ofalus i gynrychioli dwyieithrwydd y cyngor gyda'r Gymraeg uwchlaw'r Saesneg. Mae'r dyluniad dwyieithog yn cael ei sicrhau gyda phob diweddariad i'r logo ac i dempledi sy'n cynnwys y logo. Mae gan y cyngor rhai logos eilaidd, fel *Actif* Sir Gâr a *Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd* sydd hefyd wedi eu dylunio y naill gyda'r Gymraeg uwchlaw'r Saesneg, a'r llall gan ddefnyddio sillafiad Cymraeg y gair yn unig. Mae'r cyngor yn datblygu brandiau newydd yn achlysurol, er enghraifft 100% Sir Gâr, sy'n hyrwyddo busnesau a chynnyrch y sir. Mae'r hunaniaeth gorfforaethol yma'n cael ei ddefnyddio'n Gymraeg yn unig, gan ddefnyddio'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw a hyrwyddo natur Gymraeg ein sir.

Goruchwylio: Mae'r Tîm Marchnata'n sicrhau dyluniad dwyieithog i'r Cyngor ac yn hyrwyddo'r delweddau cywir yng nghylchlythyron ac mewn cyfarfodydd rheoli i sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r ddelwedd gywir.

Hybu: Mae'r ddelwedd ddwyieithog yn cael ei hybu yn holl ddigwyddiadau y mae'r cyngor yn trefnu, yn ariannu neu'n cyd-drefnu ar draws y sir. Caiff ei gynnwys hefyd i sefydliadau sy'n derbyn grantiau gan y cyngor er mwyn cydnabod cefnogaeth.

Hwyluso: Mae logos cyfredol dwyieithog i'w lawrlwytho ar gael ar y fewnwyd i sicrhau fod pawb yn defnyddio'r ddelwedd gywir ac mae templedi pŵer bwyntiau ar gael ar y fewnwyd hefyd i sicrhau delwedd unffurf wrth ymwneud gyda'r cyhoedd.

Cyrsiau Addysg (84,86)

Sut? Prin iawn yw'r cyrsiau addysg a ddarperir drwy ein Gwasanaeth Addysg yn y Gymuned erbyn hyn, oherwydd y sefyllfa ariannol. Er hyn, yn y cyrsiau a ddarperir, maent yn gweithredu cynnig rhagweithiol wrth i bobl ymrestru ac yn defnyddio'r data er mwyn asesu a oes angen cyflwyno'r cwrs yn Gymraeg ai peidio.

Mae rhai adrannau eraill, fel is-adran diogelwch ffyrdd a gwasanaethau i landlordiaid yn cynnal cyrsiau addysg i'r cyhoedd ac maent wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddarparu'n Gymraeg. Maent hefyd yn derbyn cyngor a chymorth gan y Tîm Polisi er mwyn sicrhau eu bod yn hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg ac yn darparu naill ai yn Gymraeg neu yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg.

Goruchwylio: Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth yn eistedd gyda rheolwyr yr is-adran a bydd unrhyw waith hyrwyddo ddaw drwy'r Tîm Marchnata yn cael eu goruchwylio yno.

Hybu: Wrth hybu'r cyrsiau, mae cyfle i dargedu cynulleidfaoedd cyfrwng Cymraeg ymhellach.

Hwyluso: Rydym yn cynghori staff i hwyluso defnydd y Gymraeg mewn cyrsiau addysg drwy gymryd camau ymarferol o'r pwynt cofrestru cychwynnol hyd at ddarparu adborth.

Dosbarth o Safon: Gweithredu (98-144)

Polisi Defnydd Mewnol (98)

Sut: Mae Polisi Defnydd Mewnol wedi ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar ein mewnwyd ers 2016.

Goruchwyllo: Cyfrifoldeb yr Uned Bolisi yw sicrhau bod y polisi yn gyfredol ac i bwrpas.

Hybu: Hyrwyddwyd y polisi pan y'i gyhoeddwyd gyntaf ond ddim ers hynny

Hwyluso: Mae'r Polisi ar gael ar y fewnwyd o dan 'Gweithio'n ddwyieithog'.

Dogfennau a gohebiaeth ar gyflogaeth, a gweithdrefnau (99,100, 104)

Sut? Mae pob Contract yn cael ei anfon allan yn ddwyieithog. Mae llythyr cynnig swydd a'r holl waith papur cysylltiedig yn cael ei anfon allan yn Gymraeg os ydy'r aelod o staff wedi nodi Cymraeg fel ei ddewis iaith ar y ffurflen gais am swydd. Mae pob ffurflen sydd yn ymwneud â'r broses recriwtio ar gael yn ddiodyn yn Gymraeg wrth ddilyn y llwybr Cymraeg ar lein. Yr unig ffurflen ym ymwneud â'r gyflogaeth sydd dim ar gael yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr Cymraeg yw'r ffurflen gwiriadau DBS. Am resymau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, dim ond ar bapur gallwn ddarparu'r ffurflen hon yn Gymraeg.

Goruchwyllo: yr isadran adnoddau dynol sy'n gyfrifol am weithredu hyn.

Hybu: Nid ydym yn hybu contractau Cymraeg gan fod pawb yn derbyn y Gymraeg. Mae dewis iaith yn amlwg ar y ffurflen gais ar gyfer dogfennaeth arall yn ymwneud â'r gyflogaeth.

Hwyluso: Rydym yn darparu'r ddogfennaeth yn ddwyieithog yn ddiodyn.

Rheoli perfformiad (101-3)

Sut? Mae dogfennaeth ein proses rheoli perfformiad ar gael ar y fewnwyd yn Gymraeg. Er bod y broses wedi ei ddiwygio yn ddiweddar, sy'n golygu llawer llai o waith papur swyddogol, mae modd cynnal cyfweiliadau arfarnu yn Gymraeg. Mae anghenion hyfforddiant a datblygu gyrfa yn rhan o'r broses hon.

Goruchwyllo: Rheolwyr sy'n gyfrifol am ddarparu yn unol â dewis iaith y swyddogion.

Hybu: Mae'r wybodaeth, y ddogfennaeth a'r gefnogaeth i gyd yn ddiodyn ar dudalennau Cymraeg y fewnwyd.

Hwyluso: Mae holl wybodaeth a chanllawiau'r broses arfarnu flynyddol ar y fewnwyd yn Gymraeg, gan gynnwys fideo sy'n egluro'r broses newydd. Mae modd cofnodi'r drafodaeth mewn unrhyw fodd. Nid oes ffurflen swyddogol i'w ddilyn. Mae hyn yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg sydd yn llai ffurfiol ac yn fwy hyblyg.

Camau Gweithredu:

- Hyrwyddo'r hawl sydd gan staff i gael cyfweiliadau arfarnu'n Gymraeg.
- Nodi ar dudalen Saesneg y fewnwyd fod modd cael cyfweiliadau yn Gymraeg.
- Codi ymwybyddiaeth rheolwyr o'r angen i *gynnig* cyfweiliad yn Gymraeg.

Polisiâu mewnol (105-112)

Sut? Mae ein holl bolisiâu ar dudalennau Cymraeg y fewnwyd yn Gymraeg

Goruchwylio: Dim ond pan fydd fersiynau Cymraeg ar gael mae Tîm Marchnata a Cyfryngau'r Cyngor yn cyhoeddi polisiâu ar y fewnwyd.

Hybu: Nid ydym yn hybu'r dogfennau Cymraeg. Mae pawb yn gwybod fod popeth ar gael yn Gymraeg ar y fewnwyd.

Hwyluso: Mae popeth ar gael yr un pryd â'r Saesneg ac mae diwyg y fewnwyd a phob dogfen ar y fewnwyd yr un yn y ddwy iaith. Mae pob dogfen ar gael yr un mor hwylus yn Gymraeg ag yn Saesneg.

Camau Gweithredu:

- **Hyrwyddo defnydd y fewnwyd yn Gymraeg.**
- **Gofyn i swyddogion o'r adran addysg i dreialu defnyddio'r fewnwyd yn Gymraeg am fis a darparu adborth ar y profiad.**

Cwynion a disgyblu (112-120)

Sut? Mae holl broses gwynion a disgyblu'r Cyngor ar gael yn Gymraeg. Os nad ydy'r swyddogion naturiol ar gyfer y broses yn medru siarad Cymraeg (Rheolwyr trydedd haen er enghraifft), mae swyddogion o adrannau eraill o fewn y Cyngor wedi cael eu hyfforddi i ddarparu'r broses yn Gymraeg yn ei lle.

Goruchwylio: Rheolwyr a phenaethiaid gwasanaethau sy'n gyfrifol am sicrhau bod swyddogion yn cael profiad yn unol â'u dewis iaith wrth gwyno, wrth ymateb i gwynion neu wrth ddilyn proses ddisgyblu.

Hybu: Mae isadran Adnoddau Dynol y Cyngor yn sicrhau bod swyddog yn deall ei hawliau ieithyddol ar ddechrau'r prosesau perthnasol. Mae'r polisiâu a'r ddogfennaeth berthnasol i gyd ar gael yn Gymraeg ar y fewnwyd.

Hwyluso: Mae'r broses yn cael ei weithredu yn llyfn a phob cam yn cael ei ddarparu'n ddiogel yn Gymraeg wedi i'r dewis iaith gael ei sefydlu.

Meddalwedd (120)

Sut? Mae meddalwedd *Cysgair* wedi ei osod ar bob cyfrifiadur yn ddi-ogel. Mae gwirydd iaith a chyfieithu peirianyddol ar becynnau Microsoft pawb hefyd.

Goruchwylio: Mae'r isadran TG yn gyfrifol am sicrhau bod y galluoedd gwirio iaith yn dal i fod ar gael wedi pob diweddariad meddalwedd newydd. Os ydy rhywun yn colli unrhyw allu, maent yn cysylltu gyda'r ddesg gymorth TG.

Hybu: Rydyn ni'n hyrwyddo'r canllawiau ar y fewnwyd yn achlysurol, yn enwedig ar ddyddiau Shwmae a'r Diwrnod hawliau. Byddwn yn cynnal ymgyrch farchnata mewnol ac yn cyflwyno canllaw newydd, e.e. cyfieithu ar y pryd yn Teams.

Hwyluso: Mae canllaw ar y fewnrwyd ar gyfer gwybod sut i ddefnyddio'r gwirydd iaith ar Microsoft, sut i ddefnyddio cyfieithu peirianyddol ac fe geir canllaw hefyd ar sut i ddefnyddio Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Teams.

Mewnrwyd (121-7)

Sut? Mae ein mewnrwyd gyfan yn Gymraeg. Gall defnyddiwr wasgu ar yr ochr Gymraeg ar y dudalen groeso a bydd yr holl brofiad wedi hynny yn Gymraeg. Mae pob darn o wybodaeth a phob dogfen ganllaw ar y fewnrwyd ar gael yn Gymraeg i'r union un diwyg a'r un amser â'r Saesneg. Yr unig elfen o'r fewnrwyd sydd ddim yn gwbl Gymraeg yw'r tudalennau personol ar MyView sydd ag ambell i deitl neu is-deitl yn Saesneg ar yr ochr Gymraeg. Hefyd mae hysbysebion buddion i staff sydd oddi wrth gwmnïoedd Prydeinig yn Saesneg, er fod yr holl destun y mae'r cyngor yn mewnbynnu ei hun yn Gymraeg.

Goruchwylio: Mae'r Tîm Marchnata a'r Cyfryngau'n goruchwylio cynnwys y fewnrwyd ac yn gwrthod cyhoeddi unrhyw ddeunydd newydd nes ei fod ar gael yn y ddwy iaith. Mae hyn yr union drefn ag sydd gyda'r we.

Hybu: Nid ydym yn hybu defnydd y fewnrwyd yn Gymraeg.

Hwyluso: Mae'r opsiwn Cymraeg a Saesneg o'r fewnrwyd ochr wrth ochr ar y dudalen flaen wrth agor y porwr. Mae'n rhaid dewis y naill a'r llall. Mae modd toglo o un iaith i'r llall yn hwylus ar unrhyw ran o daith y defnyddiwr.

Camau Gweithredu

- **Hyrwyddo defnydd y fewnrwyd yn Gymraeg.**
- **Gofyn i swyddogion o'r adran addysg i dreialu defnyddio'r fewnrwyd yn Gymraeg am fis a darparu adborth ar y profiad.**

Asesu Sgiliau iaith a darparu hyfforddiant Cymraeg (127, 130, 131)

Sut? Cwblhawyd arolwg sgiliau cynhwysfawr o holl staff y Cyngor 2016 gyda system meta-gydymffurfiaeth. Mae sgiliau iaith cyflogeion newydd yn cael eu casglu yn y broses recriwtio, er bod anghysondebau o ran sut mae'r asesu iaith yn digwydd a sut mae'r canlyniadau'n cael eu hystyried. Caiff sgiliau iaith cyflogeion newydd eu cofnodi ar y system gan yr is-adran Adnoddau Dynol.

Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth manwl a chyfredol ar sgiliau iaith rhai carfanau o gyfer staff yn achlysurol, e.e. ein gweithlu addysg a gofal cymdeithasol er mwyn gweithredu ar y canlyniadau. Gwneir hyn drwy arolygon gwirfoddol.

Goruchwylio: Adroddir ar sgiliau iaith y staff yn Adroddiad Blynyddol y Gymraeg a thrwy'r adroddiad blynyddol, i Banel Ymgynghorol Aelodau ar y Gymraeg.

Darparu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg (128, 129, 132, 133).

Sut? Nid ydym yn darparu hyfforddiant ar y meysydd a enwyd o gwbl yn y cyngor, ond mae'r Tîm Dysgu a Datblygu yn cynghori a chynorthwyo rheolwyr i recriwtio a chyfweld yn unol â'r Safonau.

Mae fideo hyfforddi ar ddefnyddio a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ar y fewnrwyd.

Goruchwylio: Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu yn arwain ar y ddarpariaeth gorfforaethol ar draws y cyngor, gydag ymgynghorwyr penodol.

Hybu: Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu yn arwain ar hwyluso'r trefniadau ar gyfer yr holl hyfforddiant corfforaethol ac yn nodi yn y negeseuon hyrwyddo pa ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hwyluso: Mae'r Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) hefyd yn cynorthwyo'r tîm ehangach i adnabod a datblygu cyfleoedd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac yn darparu rhai sesiynau wedi'u teilwra.

Ymwybyddiaeth iaith (132-3)

Sut? Crëwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar lein newydd yn 2018 ac fe'i sefydlwyd yn un o'r modiwlau gorfodol wrth gychwyn mewn swydd. Darperir ymwybyddiaeth iaith fel rhan greiddiol o hyfforddiant yr Arweinwyr Iaith hefyd.

Goruchwylio: Y Tîm Dysgu a Datblygu sy'n gyfrifol am ddarparu'r ddolen i'r hyfforddiant wrth anwytho staff. Gofynnir i bob aelod o staff gwblhau'r modiwl yn ystod y chwe mis cyntaf o gyflogaeth. Mae hyn yn cael ei fonitro gan reolwyr llinell gan fod y modiwl yn un gofynnol.

Hybu: Dydyn ni ddim yn hybu'r ddarpariaeth ymwybyddiaeth iaith ar hyn o bryd.

Hwyluso: Mae'r hyfforddiant ar gael yn ddi-ofyn ac yn orfodol, felly does dim angen ymdrechu i hwyluso ei ddefnydd. Ond mae potensial i awgrymu fod staff tn ail-ymweld â'r modiwl ar ôl blwyddyn o weithio gyda'r cyngor

Cam Gweithredu:

- **Diweddarau'r e-fodiwl gyda ffigurau'r cyfrifiad**
- **Hyrwyddo'r hyfforddiant ar ddydd Gŵyl Dewi – annog staff i ail-wneud yr hyfforddiant**
- **Sefydlu trefn i wirio niferoedd sy'n cwblhau'r modiwl ymwybyddiaeth iaith ac atgoffyn awtomatig i staff ail-wneud y modiwl ar ôl blwyddyn gyda'r awdurdod.**

Llofnod e-bost (134-5)

Sut? Mae geiriad ar gael ar y fewnrwyd ar gyfer creu llofnod e-bost ddwyieithog, ac mae'r llofnod yn esbonio i staff sut i gynnwys swigen oren i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg. Mae geiriad ar gyfer gwas allan o'r swyddfa hefyd ar y fewnrwyd. Mae defnydd y ddau yn reit uchel ar draws y Cyngor erbyn hyn.

Goruchwylio: Cyfrifoldeb y rheolwyr yw sicrhau bod staff yn gweithredu'r Safonau hyn yn gywir. Mae Arweinwyr iaith y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ar y Safonau ac yn gwybod am y canllawiau ar y fewnrwyd. Gallant wirio a chynghori eu cyd-weithwyr ar eiriad cywir ar gyfer e-byst a'r gwas allan o'r swyddfa. Mae'r Uned Bolisi hefyd yn cynghori staff yn achlysurol, wrth ddod ar draws llithriadau.

Hybu: Rydyn ni wedi hyrwyddo'r angen i gynnwys y geiriad cywir ar e-bost yn ysbeidiol yn y cylchlythyr staff.

Hwyluso: Mae'r geiriad ar gyfer llofnod e-bost ar dudalennau mewnwyd y Gymraeg, ond hefyd ar dudalennau cyfathrebu'r fewnwyd. Mae cyfarwyddiadau ar y tudalennau hynny ar 'greu, newid a golygu llofnod e-bost' ac mae templedi ar gael sy'n cynnwys y swigen oren i siaradwyr Cymraeg ac un ar gyfer dysgwyr.

Recriwtio (136-40)

Sut? Mae pob swydd yn cael ei chategoreiddio gyda sgiliau iaith o 1-5. Mae pob rheolwr yn llenwi ffurflen sy'n cynnwys yr asesiad yma i gael ei gymeradwyo gan Bennaeth Gwasanaeth. Nid oes modd parhau a'r broses o hysbysebu swydd heb fod yr asesiad iaith wedi ei gwblhau. Bydd Adnoddau Dynol yn codi cwestiwn ynglŷn â'r asesiad hwn os ydynt yn teimlo nad yw'n addas.

Goruchwyllo: Y Tîm Recriwtio o fewn yr isadran Rheoli Pobl sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r trefniadau hyn.

Hybu: Mae pob hysbyseb swydd yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac mae esboniad o'r lefel o Gymraeg sydd ei angen ar y ffurflen gais gyda dolen at y ddogfen esboniadol sy'n cynorthwyo bobl i asesu eu lefel. Ar achlysuron penodol, mae'r cyngor yn gwneud defnydd o wefannau recriwtio arbenigol sy'n targedu siaradwyr Cymraeg.

Hwyluso: Mae holl dogfennaeth swyddi yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg ac mae cynnig o gael cyfweiliad yn Gymraeg yn cael ei roi ar y ffurflen gais yn ogystal, ac anfonir pob gohebiaeth yn Gymraeg os ydy'r cais yn cael ei gyflwyno'n Gymraeg.

Camau Gweithredu:

- **Diweddarau'r wybodaeth ar y tudalennau recriwtio er mwyn esbonio ein bod yn gyflogwr dwyieithog gan danlinellu'r cyfleoedd i ymgeisio drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Arwyddion yn y gweithle (141-3)

Sut? Mae holl arwyddion swyddogol y gweithle yn cael eu creu a'u darparu'n Gymraeg, gyda'r uned gyfieithu yn sicrhau cywirdeb, yn yr un modd ag arwyddion cyhoeddus y cyngor. Mae unrhyw waith dylunio ar gyfer arwyddion dros dro sy'n cael eu ddarparu'n ganolog yn dilyn yr un drefn â'r wefan a'r fewnwyd gyda'r Tîm Marchnata a Chyfathrebu'n gwirio bod fersiwn Cymraeg ar gael cyn cyhoeddi.

Goruchwyllo: Mae rheolwyr ein safleoedd yn gyfrifol am sicrhau arwyddion parhaol, cyffredinol, dwyieithog yn y gweithle. Mae'r is-adran Eiddo yn gyfrifol am arwyddion gorfodol, diogelwch. Mae pob arwydd swyddogol yn cael ei ddarparu drwy fframwaith pwrcasu a weinyddir gan y Tîm Marchnata a'r Cyfryngau. Bydd y tîm yn gwirio dwyieithrwydd y gwaith fel rhan o'r weithdrefn. Mae'r adrannau amrywiol yn gyfrifol am yr arwyddion dros dro a ddefnyddir yn ein gweithfeydd. Mae Arweinwyr iaith y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ar y Safonau ac yn gwybod bod angen i bopeth ymddangos yn Gymraeg. Gallant wirio bod hyn yn digwydd yn eu swyddfeydd.

Hybu: Wrth hyfforddi Arweinwyr Iaith rydyn ni'n egluro i staff pam fod gosod arwyddion Cymraeg yn y man mwyaf tebygol o gael ei ddarllen yn gyntaf er mwyn iddyn nhw ddeall nad ymarfer gwag ydyw.

Hwyluso: Mae arwyddion safonol ar gael ar y fewnrwyd ar gyfer defnydd achlysurol yn y gweithle ar gyfer adegau pan fydd staff yn argraffu negeseuon dros dro ei hunain.

Cyhoeddiadau (144)

Sut? Mae'r cyhoeddiadau parod yn ein theatrau yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Mae'r cyhoeddiadau i'r cyhoedd yn ein canolfannau hamdden yn dilyn yr un patrwm. O ran ein cyhoeddiadau mewnol, i staff, ond sy'n cael eu clywed gan y cyhoedd, mae angen i ni barhau i wirio fod rhain yn dilyn yr un drefn yn gyson.

Goruchwyliaeth: Rheolwyr y safleoedd sy'n goruchwyllo cywirdeb y cyhoeddiadau.

Hwyluso: Mae yna glipiau sain ar y fewnrwyd i gynorthwyo staff llai hyderus, i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle. Mae'r Adran Bolisi hefyd wedi darparu clipiau sain perthnasol i'r Canolfannau hamdden i gynorthwyo staff llai hyderus i wneud datganiadau dwyieithog, cywir.

Dosbarth o Safon: Hybu (145-6)

Strategaeth Hybu (145-6)

Sut? Cyhoeddwyd ein Strategaeth hybu cyntaf yn 2017 ac fe arweiniodd y cyngor ar gynllun gweithredu'r Strategaeth honno am bum mlynedd gan gydweithio gyda phartneriaid y Fforwm Strategol Sirol, a weinyddwyd gan y Cyngor. Yn 2022, cwblhawyd adroddiad manwl ar y Strategaeth Hybu cyntaf ac mae gwaith ar waith ar lunio Strategaeth Hybu 2023-2028 eisoes. Mae'r cyngor yn gweithredu'r gwaith cynllunio, ac arwain ac adrodd o'r Adran Bolisi ac mae adrannau eraill y cyngor wedi ymrwymo i gydweithio ar feysydd gwaith penodol er budd y Gymraeg.

Goruchwylio: Mae'r Fforwm Strategol Sirol yn gweithredu fel fforwm i gydweithio, ond hefyd i graffu ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo. Mae'r Aelod Portffolio ar y Cabinet yn craffu ar y cynnydd drwy fynychu cyfarfodydd y Fforwm yn ogystal. Caiff y Strategaeth a'r Adroddiad ei gymeradwyo gan tîm rheoli a'r Aelod portffolio yn eu tro.

Hybu a hwyluso defnydd: Mae ein strategaeth hybu ar dudalen Gymraeg gwefan y Cyngor.

Camau Gweithredu:

- **Codi ymwybyddiaeth o adroddiad Strategaeth 1**
- **Trefnu cyhoeddusrwydd ac ymgynghori ar Strategaeth 2**